Beicio mynydd yng Nghymru

# Ydych chi mewn gêr i wynebu'r her?



Pam mae beicio mynydd yng Nghymru yn bwysig i'ch sefydliad chi – a sut i wneud y gorau ohono.

**www.mbwales.com**

# Beth yw diben yr arweiniad hwn?

Mae beicio mynydd yn weithgaredd hamdden enfawr sy'n dal i dyfu'n ddibaid – ac mae hyn yn newydd da i Gymru'n arbennig. Mae cannoedd o filoedd o feicwyr mynydd yn dod yma bob blwyddyn, wedi'u denu gan amrywiaeth heb ei hail o brofiadau oddi ar y ffordd sydd ar gael mewn canolfannau beicio arbenigol o waith dyn ac ar dirweddau naturiol cefn gwlad ac arfordir Cymru.

Mae yno amrywiaeth eang o brofiadau fydd yn apelio at feicwyr mynydd o bob lliw a llun a phob oedran, o'r rhai sy'n gaeth i wefr cyflymder ar eu beiciau goriwaered drud i deuluoedd o egin feicwyr sydd am fynd am dro bach sidêt trwy'r goedwig ar hyd llwybrau trefnus heb sialens. Mae beicio mynydd yn elfen bwysig o sîn gweithgareddau awyr agored cynyddol Cymru. Bydd yr arweiniad hwn yn eich helpu i fod yn rhan o hyn i gyd, ni waeth a ydych chi'n ddarparwr llety, neu'n rhedeg tŷ bwyta neu gaffé, neu rywun sy'n awyddus i sefydlu neu ehangu busnes sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd cyffrous hwn.

Nod y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth allweddol am feicio mynydd yng Nghymru a dangos sut gallwch chi elwa o'i herwydd. Cafodd ei sgrifennu mewn modd clir, cryno a – gobeithio – hawdd i'w ddarllen i'ch galluogi i bori ynddi heb drafferth, gan ganolbwyntio ar yr agweddau sy'n berthnasol i'ch busnes chi.

Os dilynwch chi'r cyngor sydd ar y tudalenau canlynol mi fyddwch chi ar y llwybr iawn at ennill cyfran fwy o farchnad gynyddol yr ymwelwyr beicio mynydd.



hawlfraint: www.mtb-marathon.co.uk

## Cynnwys


Pam dylwn i drafferthu? 3
Beicio mynydd yng Nghymru 4
Hanes beicio mynydd yng Nghymru 4-6
Adnabod eich marchnad 6
Manteision Cymru 7
Cipio'ch rhan o'r farchnad 8
Cyhoeddi'ch neges 10
Croeso i Feicwyr 10
Rhaid ichi wybod 11
Canolfannau beicio mynydd 12
Safleoedd cychwyn ar gyfer beicio mynydd 13
Esboniad o sut mae llwybrau'n cael eu graddio 14


# Pam dylwn i drafferthu?

**chwimffeithau**

MAE 5.5 MILIWN O FEICWYR MYNYDD YN Y DU

Mae beicio mynydd yng Nghymru'n wych. Ond dim ond un rhan o'r darlun yw'r gweithgaredd ei hun. Mae ar feicwyr angen lleoedd i aros dros nos, bwyd da i'w fwyta, cyfarpar i'w brynu neu'i hurio a gwybodaeth fanwl am bob ardal. Gall cymhwyso eich busnes i ddarparu ar gyfer yr anghenion hyn ddod â buddion sylweddol parhaus i'ch rhan.

Mae'n werth mynnu eich rhan yn y farchnad hon. Yn ôl data o Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Unedig, gwariodd pobl o wledydd Prydain a ddaeth i wneud beicio mynydd yng Nghymru yn agos i £24 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd yn 2006 a 2007.

Ac mae'r ffigwr yn debyg o fod yn uwch heddiw gan fod nifer yr ymwelwyr wedi chwyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, ymwelodd 73,000 o feicwyr mynydd â chanolfan Cwmcarn yn ystod 2011, heb sôn am fannau eraill. Mae beicio mynydd ym Mharc Coedwig Afan – un o'r storïau llwyddiant mwyaf dros y deng mlynedd diwethaf – wedi dod â chyfleoedd busnes newydd a bywyd newydd i gwm a ddibynnai unwaith ar ei byllau glo. Ar hyd a lled Cymru fe welwch chi nifer gynyddol o geir â rheseli llawn beiciau, yn anelu am ganolfannau coedwig neu drefi allweddol megis Aberhonddu, Llanwrtyd, Rhaeadr Gwy, Machynlleth, Dolgellau a Betws-y-Coed.



Mae tuedd amlwg tuag i fyny felly yn nhwristiaeth feicio mynydd yng Nghymru. Yn 2011, croesawyd 293,146 o feicwyr gan ganolfannau llwybrau beicio Comisiwn Coedwigo Cymru, o'u cymharu â 195,483 yn 2006 a 213,830 yn 2007. Mae beicio mynydd wedi profi i fod yn sector tra sefydlog a gwydn, hyd yn oed mewn sefyllfa economaidd sydd at ei gilydd wedi effeithio'n negyddol ar dwristiaeth. Gwelir patrwm tebyg mewn canolfannau preifat.

Ffigyrau ymwelwyr â chanolfannau llwybrau a safleoedd cychwyn Comisiwn Coedwigo Cymru o 2004 tan 2011

| | |
|---|---|
| 2004 | 133,654 |
| 2005 | 166,590 |
| 2006 | 195,483 |
| 2007 | 213,830 |
| 2008 | 246,652 |
| 2009 | 288,379 |
| 2010 | 248,018 |
| **2011** | **293,146** |

## chwimffeithau

YN 2006 A 2007 GWARIODD BEICWYR MYNYDD O'R DU £24 MILIWN Y FLWYDDYN AR GYFARTALEDD YNG NGHYMRU

# Beicio mynydd yng Nghymru

Yr un fath â thirweddau amryliw Cymru, mae'r gweithgaredd hwn yn amrywio'n aruthrol, o feicio mynydd ar hyd llwybrau coedwig pwrpasol o'r enw 'traciau sengl' i ffyrdd glaswelltog hynafol y porthmyn sy'n ymlwybro ar draws anialdiroedd gwag 'to Cymru'. Yn y bôn, gellir rhannu profiad beicio mynydd yng Nghymru yn ôl y categorïau canlynol.




**Canolfannau beicio mynydd**

1. Parc Coedwig Afan
2. Antur Stiniog
3. Coed Llandegla
4. Parc Coedwig Coed-y-Brenin
5. Coed Trallwm
6. Cwmcarn
7. Nant-yr-Arian

**Safleoedd cychwyn beicio mynydd**

8. Betws-y-Coed
9. Brechfa
10. Bannau Brycheiniog
11. Bryniau Clwyd
12. Cwm Rhaeadr
13. Hiraethog
14. Machynlleth
15. Sir Faesyfed

## Reidio llwybrau pwrpasol

Mae Cymru'n gartref i saith 'canolfan' bwrpasol ac wyth 'safle cychwyn' sy'n cynnig amrywiaeth eang o brofiadau beicio mynydd, rhwng hawdd a dyrys, ar draciau o waith dyn sy'n cwmpasu cymysgedd o hydoedd technegol, goriwaered ac esgynnol. Cewch fanylion llawn y rhain yn yr adran 'Rhaid ichi wybod' ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'r canolfannau'n safleoedd beicio mynydd sengl pwrpasol, sy'n cynnig llwybrau wedi'u marcio ag arwyddion, amrywiol eu lefel anhawster, ynghyd â chanolfannau ymwelwyr a chyfleusterau beicio. Mae'r safleoedd cychwyn yn ardaloedd a lleoliadau mwy anodd i'w diffinio sy'n gartref i ystod o lwybrau wedi'u mapio a'u marcio ag arwyddion. Darperir cyfleusterau cynorthwyol yn y safleoedd cychwyn gan ddarparwyr annibynnol.

Mae llwybrau beicio wedi'u graddio fel y gall ymwelwyr ddewis yn hawdd y llwybr sy'n addas i'w lefel sgiliau (gweler 'Esboniad o sut mae llwybrau'n cael eu graddio' yn yr adran 'Rhaid ichi wybod'). Mae'r mathau o dir a gynigir yn amrywio o lwybrau coedwig rhwydd sy'n hygyrch i bawb (gan gynnwys beicwyr ag anableddau mewn rhai achosion), ymlaen i draciau goriwaered heriol na fydd neb ond y reidwyr mwyaf profiadol yn mentro ar eu hyd.



## chwimffeithau

MAE SAITH CANOLFAN LWYBRAU BWRPASOL AC WYTH SAFLE CYCHWYN BEICIO MYNYDD YNG NGHYMRU

## Llwybrau naturiol

Y canolfannau coedwig pwrpasol sy'n cael y prif sylw yn aml ym myd beicio mynydd. Ond dylen ni gofio hefyd bod asedau naturiol Cymru – ei bryniau a'i mynyddoedd, ei chymoedd a'i harfordir – yr un mor ddeniadol i feicwyr mynydd (neu'n fwy deniadol fyth, os holwch chi'r puryddion oddi ar y ffordd sy'n dewis rhyddid ac unigrwydd tirweddau agored cefn gwlad bob amser yn hytrach na llwybrau coedwig gwneud).

Gogoniant mawr Cymru yw bod y math yma o reidio – sy'n dibynnu ar fapiau a GPS, nid llwybrau ag arwyddion ar eu hyd – ar gael bron ym mhob man, hyd yn oed yng nghymoedd poblog y De lle ceir llwybrau mynydd â golygfeydd heb eu hail. Mae ffyrdd marchogaeth a llwybrau glaswelltog yn cynnig profiad reidio cyffrous ym mhob man, o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y de i Barc Cenedlaethol Eryri yn y gogledd, o fryniau Preseli yn Sir Benfro i fryndir tonnog tragwyddol y Gororau – heb anghofio eangderau gwag y Canolbarth, lle gallwch chi reidio trwy'r dydd heb ddod ar draws yr un enaid byw (heblaw am farcud coch neu ddau efallai).



## Reidio goriwaered eithafol

Traciau goriwaered cyflym pwrpasol ar gyfer reidwyr profiadol. Nid i'r rhai gwangalon.

## Llwybrau beicio oddi ar ffordd

Llwybrau mwyn sy'n addas ar gyfer reidwyr di-brofiad a theuluoedd, er enghraifft llwybrau halio camlesi a rheilffyrdd diddefnydd.

## Hanes beicio mynydd yng Nghymru

### 1985

Llanwrtyd, tref fechan sy'n enwog oherwydd ei hanes maith o ddigwyddiadau amrywiol (ac od hyd yn oed), sy'n arwain y ffordd trwy gynnal ei achlysur beicio mynydd cyntaf. Mae'r digwyddiadau hyn yn amrywio o brofion dycnwch er hwyl i Bencampwriaeth Cors-Snorcelio ddrwgenwog MTB

### 1997

Agorwyd canolfan lwybrau bwrpasol gyntaf y DU ym Mharc Coedwig Coed-y-Brenin. Mae coedwigoedd eraill ledled gwledydd Prydain yn dechrau cymryd sylw ac yn dilyn yr esiampl heb oedi

### 2000

Agoriad swyddogol y 9feet.com, y llwybr trac sengl cyntaf ym Mharc Coedwig Afan

### 2002

Cynhaliwyd Bwystfil y Bannau/Brecon Beast, prawf dycnwch beicio mynydd, am y tro cyntaf dros Fannau Brycheiniog. Mae'n denu 300 o feicwyr. Cymerodd tuag 800 ran ynddo y llynedd, gan ddod â buddion sylweddol i ecónomi'r ardal a chodi proffil y Bannau'n gyffredinol yn y farchnad beicio mynydd

### 2003

Datblygodd Comisiwn Coedwigo Cymru ei bum canolfan beicio mynydd wreiddiol yng Ngwydyr, Coed-y-Brenin, Nant-yr-Arian, Afan a Chwmcarn. Cawsant eu hysbysebu ar wefan Visit Wales, mbwales.com; y canolfannau hyn oedd yn y rheng flaen o'r cychwyn o ran datblygu beicio mynydd yn y DU. Yn ogystal, fe lansiwyd Beicio Bryniau Clwyd, sef rhwydwaith o lwybrau sy'n cysylltu llwybrau marchogaeth a heolydd bychain ar draws tirwedd brydferth ar hyd y ffin

### Rhagfyr 2004

Parc Coedwig Afan oedd yr unig cyrchfan beicio yng ngwledydd Prydain i ymddangos yn y cylchgrawn What Mountain Bike ymhlith y deg man gorau i reidio 'cyn ichi farw', ochr yn ochr â Mynyddoedd yr Himalaia a Chaliffornia

### 2005

Sefydlwyd y ganolfan beicio mynydd breifat gyntaf gan gwmni Tilhil Economic Forestry dan reolaeth Oneplanet Adventure, yng Nghoed Llandegla yn y Gogledd. Mae wedi dod yn boblogaidd aruthrol ac erbyn hyn mae'n denu mwy na 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Sefydlodd Dyfi Mountain Biking lwybr Cli-machx yng Nghoedwig Dyfi ger Machynlleth

### 2006

Comisiwn Coedwigo Cymru a Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfyrddin yn datblygu llwybrau beicio mynydd Coedwig Brechfa. Coed-y-Brenin yn agor canolfan ymwelwyr newydd sbon er mwyn ymdopi â'r galw cynyddol

Parhad drosodd...

# Adnabod eich marchnad: pwy yw'r beicwyr mynydd yma?

Er iddo gael ei ystyried weithiau'n weithgaredd i'r gwir selogion yn unig, y gwir yw bod beicio mynydd yn apelio at ymwelwyr o bob oedran a phob cefndir. Gall fod yn gamp ddifrifol neu'n hobi hamddenol, sy'n cwmpasu pawb o'r reidwyr goriwaered eithafol i deuluoedd â phlant ifanc. Gellir rhannu'r farchnad beicio mynydd yn dair rhan:

### Arbenigwyr/Selogion

- Yn reidio o leiaf unwaith yr wythnos
- Yn arfer cymryd rhan mewn digwyddiadau cystadleuol
- Mae ganddynt eu beiciau drud eu hunain
- Yn fodlon teithio ymhell ar y penwythnos er mwyn reidio neu gystadlu

### Potshwyr/Reidwyr Rheolaidd

- Yn reidio os oes modd, sawl gwaith y mis fel rheol
- Yn tueddu i beidio â chystadlu
- Yn llai tebygol o deithio ymhell ar y penwythnos er mwyn reidio

### Teuluoedd/Reidwyr Achlysurol

- Yn reidio unwaith y mis neu'n llai
- Yn ymddiddori yn y buddion a gynigir gan feicio mynydd o ran iechyd/cadw'n heini
- Yn debygol o symud i gategori'r Potshwyr/ Reidwyr Rheolaidd os yw'r profiad yn bleserus ac yn hygyrch

Mae'r amrywiaeth eang hon o gyfranogion yn newydd da i'r diwydiant ymwelwyr, gan ei bod yn creu rhychwant anferth o gyfleoedd i fusnesau twristaidd o bob math. Yn aml bydd angen i reidwyr achlysurol hurio cyfarpar, tra bydd selogion yn debygol o ddod â'u beiciau eu hunain. Bydd beicwyr rheolaidd yn chwilio am lety sy'n derbyn reidwyr a'u beiciau, cyfleusterau a'r wybodaeth ddiweddaraf am y llwybrau a'r traciau.

### Pwyntiau bwled ynghylch beicio

- Dynion cymharol cefnog rhwng 30 a 50 oed yw'r rhan fwyaf o feicwyr mynydd rheolaidd ar hyn o bryd. Ar y cyfan mi fydd y reidwyr hyn yn defnyddio canolfannau llwybrau pwrpasol gan deithio i Gymru'n unswydd ar gyfer beicio mynydd
- Serch hynny, gwelir potensial tyfiant sylweddol bellach hefyd yn y farchnad deuluoedd a reidwyr achlysurol. I'r rhan hon o'r farchnad, mae beicio mynydd yn arfer bod yn un elfen o wyliau sydd hefyd yn cynnwys ystod o weithgareddau eraill. Mae beicio mynydd yn apelio fel gweithgaredd awyr agored pleserus sy'n gadael i feicwyr hen ac ifanc gael cip gwell ar amgylchedd naturiol Cymru. Mae'n elfen allweddol o senario cynyddol gweithgareddau awyr agored Cymru.
- Mae beicwyr mynydd yn ymddiddori mewn llety o bob math, o gabanau bynciau syml i westai plasty gwledig moethus. Peidiwch anghofio fod yna lawer o feicwyr mynydd tra chefnog o ddinasoedd Lloegr sydd wedi gwario mwy na £3,000 ar eu beic yn unig.



## Hanes beicio mynydd yng Nghymru

**2008**
Y gymuned o gwmpas Penmachno'n datblygu Dolen Machno a Dolen Eryri yng Nghoedwig Penmachno

**2011–2014**
Gwelir buddsoddiad anferth mewn beicio mynydd yng Nghymru trwy gyfrwng Canolfannau Rhagoriaeth Visit Wales gan gynnwys llwybrau, canolfannau a chyfleusterau newydd

**2012**
Y llwybr diweddaraf – safle 4 llwybr goriwaered a neidiau yn Llechwedd, Blaenau Ffestiniog – a disgwylir i ganolfan ymwelwyr fach agor ei drysau yn y gwanwyn/haf

**chwimffeithiau**

YMWELODD BRON 300,000 O REIDWYR Â CHANOLFANNAU LLWYBRAU COMISIWN COEDWIGO CYMRU YN 2011



**chwimffeithiau**

MAE BEICWYR MYNYDD O'R DU YN MYND AM 78 MILIWN O REIDIAU'R FLWYDDYN

# Manteision Cymru: cryfderau allweddol ar amrantiad

Mae gan Gymru nifer o fanteision mawr fel cyrchfan i feicwyr mynydd.

### Hygyrchedd

Ffaith hanfodol bwysig yw mai Cymru yw'r lle agosaf i lawer o drigolion Prydain lle gallant fwynhau tirweddau gwirioneddol 'wyllt'. Mae ymwelwyr o rannau helaeth o Loegr yn gallu cyrraedd mannau beicio mynydd yng Nghymru mewn dwy neu dair awr. Mewn cymhariaeth, mae teithio i gyrchfannau tebyg yn Yr Alban er enghraifft yn cymryd llawer mwy o amser, hyd at ddiwrnod weithiau. O ystyried mai ar seibiannau bach cyfyng eu hamser y mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn dod i Gymru heddiw, mae hyn yn golygu gwir fantais i Gymru. Ar ben hyn, mae'n hawdd teithio o gwmpas Cymru diolch i'w maint cymharol fach a'i ffyrdd tawel.

### Amrywiaeth a golygfeydd

Mae gan Gymru nifer fawr o lwybrau beicio mewn canolfannau coedwig yn ogystal â chyfoeth o dirweddau naturiol hardd a hygyrch, sy'n rhoi i ymwelwyr ddewis heb ei ail o gyrchfannau.

### Hinsawdd

Mae anamlder tywydd eithafol a'r diffyg eira'n golygu bod beicio mynydd yn bosibl trwy'r flwyddyn. Cadwch mewn cof hefyd nad oes ots gan feicwyr mynydd am fynd yn fwdlyd! Y gwir amdani yw mai gorau po fwyaf o fwd piau hi i lawer ohonynt.

### Enw da

Mae Cymru'n cael ei chydnabod yn barod fel prif ganolbwynt i feicwyr mynydd o bob cwr o'r DU. Brand ac iddo enw ardderchog a gwerthoedd cryf yw 'Beicio Mynydd Cymru', sy'n golygu ei bod yn haws o lawer ichi ei 'werthu' i'ch cwsmeriaid dichonol.

### Llwybrau technegol

Mae apêl gref gydol y flwyddyn gan y rhychwant o lwybrau pwrpasol yng Nghymru sydd wedi cael eu dylunio'n arbennig i wrthsefyll tywydd garw. Maent yn cael eu cydnabod fel rhai o'r goreuon yn Ewrop.

### Cronfa gwsmeriaid eang

Mae'r wlad yn ddeniadol i'r farchnad feicio mynydd achlysurol hefyd am ei bod yn hawdd i'w chyrraedd ac oherwydd y rhychwant o lwybrau sydd wedi cael eu dylunio'n unswydd ar gyfer beicwyr di-brofiad.

### Yr amgylchedd a'r 'apêl werdd'

Mae canolfannau llwybrau Cymru'n gymharol fach, yn gynaliadwy ac yn garedig i'r amgylchedd. Mae'r amser a gymerir i deithio iddynt, sy'n fyr o'i gymharu â chyrchfannau beicio mynydd tebyg yn Yr Alban, yn ychwanegu at hygrededd gwyrdd Cymru.

## astudiaeth achos

BIKES & HIKES, ABERHONDDU
WWW.BIKESANDHIKES.CO.UK



Mae Bikes & Hikes, sy'n gweithredu ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn cynnig rhychwant eang o weithgareddau awyr agored, ond rhoddir pwyslais arbennig ar hurio cyfarpar ac arwain teithiau beicio mynydd.

Mae'r cwmni'n gwerthu ac yn hurio cyfarpar beicio, yn ogystal â threfnu reidiau tywysedig yn y Parc Cenedlaethol a darparu gwybodaeth am lwybrau beicio yn yr ardal. Yn ôl y perchennog Keith Lee, dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer gynyddol o deuluoedd a grwpiau wedi dechrau ymddiddori mewn beicio mynydd, ac mae hyn yn rhan o'r cynnydd ehangach mewn gwyliau a seibiannau byr seiliedig ar weithgareddau y mae Cymru ar ei hennill o'i herwydd.

'Mae teuluoedd a grwpiau'n farchnad sy'n tyfu'n bendant yn yr ardal yma,' medd Keith. 'Yn y gorffennol 'doedd y farchnad yma ddim yn cael ei hystyried yn un a oedd yn werth manteisio arni, ond dw i wedi newid fy safbwynt amdani'n llwyr. Mae teuluoedd bron marw yn chwilio am rywbeth i'w wneud wrth ddod i ardaloedd newydd.'

Mae Bikes & Hikes yn adlewyrchu'r duedd hon gan ddarparu beiciau sy'n addas i egin feicwyr, yn ogystal ag ôl-gerbydau a beiciau i blant. I'r beicwyr mwy profiadol hynny sy'n tueddu i ddod â'u cyfarpar eu hunain gyda nhw, mae'r siop yn ffynhonnell werthfawr i'r rhai sydd am gael gwybodaeth leol am feicio. Mae'n beth cyffredin i reidwyr sydd wedi ymweld ag un o'r canolfannau llwybrau lleol eisoes gerllaw alw i mewn i gael gwybodaeth am lwybrau traws-gwlad lleol.

> 'Mae teuluoedd a grwpiau'n farchnad sŷ'n tyfu'n bendant yn yr ardal yma'


Trwy ei wefan yn bennaf y mae Bikes & Hikes yn hysbysebu, ond mae'n anfon cylchlythyr rheolaidd hefyd i'w gwsmeriaid blaenorol, yn cynnig y wybodaeth ddiweddaraf am lwybrau. Yn ôl Keith, mae hyn wedi profi'n boblogaidd ymhlith trigolion yr ardal yn ogystal â'r ymwelwyr.

Mae'r cwmni'n cydweithredu hefyd â darparwyr llety lleol i wneud y profiad beicio mynydd yn fwy hwylus i ymwelwyr. 'Os ydy pobl am ddechrau reidio o'u llety rydyn ni'n galw i mewn gyda'r trelar i ollwng eu beiciau a'u casglu wedyn ar ddiwedd y dydd,' esbonia Keith. 'Rydyn ni'n gadael fflyd o feiciau'n barhaol mewn un wersyllfa gan fod y galw amdanyn nhw wedi tyfu cymaint dros y pum mlynedd diwethaf. Rydyn ni'n gweld pobl yn aros am fwy o amser er mwyn cael diwrnod ychwanegol ar gefn eu beiciau.'

# Cipio'ch rhan o'r farchnad: cyngor ymarferol



Mae yna lu o awgrymiadau a mentrau syml, hawdd eu gweithredu, a all helpu i wneud eich busnes chi'n fwy deniadol i feicwyr mynydd.



## chwimffeithiau

YMWELODD LLAWER MWY NA 70,000 O FEICWYR MYNYDD Â CHANOLFAN LWYBRAU CWMCARN YN Y DE YN 2011

### Awgrymiadau da i ddarparwyr llety

- Mae'n bwysig i feicwyr wybod bod cyfleusterau da'n aros amdanynt ar ddiwedd eu reid. Darparwch bibell dd?r y tu allan i olchi beiciau (ar lawr caled da â draeniad da os oes modd), ynghyd â rhywle lle gall beicwyr sychu dillad a chyfarpar gwlyb dros nos
- Trowch ystafell sbâr neu d? allan yn STORFA DDIOGEL. Mae rhai beiciau mynydd yn werth miloedd o bunnoedd, a bydd eich ymwelwyr yn gwerthfawrogi cael rhywle DIOGEL i'w storio
- Ymunwch â'r cynllun Croeso Beicwyr sydd ag achrediad Croeso Cymru (gweler y manylion isod), fel y bydd beicwyr mynydd yn gwybod eich bod wedi'ch cyfarparu ac wedi ymrwymo i gynnig croeso cynnes iddynt
- Cynigiwch gyswllt WiFi di-dâl â'r rhyngrwyd i adael i'ch gwesteion ymchwilio i'r ardal leol, cynllunio gweithgareddau a hurio cyfarpar. Bydd llawer o'ch cwsmeriaid dichonol mewn grŵp oedran sy'n disgwyl mynediad rhwydd i'r rhyngrwyd. Os na allwch chi ei gynnig, fe allech chi golli cwsmeriaid
- Gosodwch hysbysfwrdd â mapiau o'r llwybrau lleol, rhagolygon y tywydd a'r wybodaeth ddiweddaraf am fusnesau beicio mynydd eraill yn eich ardal
- Stociwch gopïau o'r map(iau) OS 1:25,000 lleol i'w gwerthu i'ch gwesteion
- Mae gwyliau beicio mynydd yn apelio at bawb, o egin feicwyr i'r reidwyr mwyaf digyfaddawd. Ymgyfarwyddwch â'r profiadau beicio amrywiol sydd ar gael yn eich ardal fel y gallwch chi gynnig cyngor penodol arbenigol i bob cwsmer, ni waeth am ei lefel sgiliau
- Meithrinwch gydberthynas dda â'r busnesau beicio mynydd yn eich ardal. Cynigiwch becynnau llety hollgynhwysol sy'n cynnwys cyfarwyddyd ynghylch llwybrau a/neu hurio cyfarpar
- Cynigiwch brydau bwyd a phecynnau cinio maethlon, llawn ynni (gan gynnwys bananas i frecwast!). Byddwch yn hyblyg, fel y gall eich gwesteion adael yn gynnar a dychwelyd yn hwyr heb golli cyfleoedd i fwyta
- Gwnewch yn siwr eich bod yn cymryd rhan yng nghynllun graddio seren Croeso Cymru – ansawdd yw'r allwedd os ydych am roi hwb i'ch busnes a chynyddu'ch elw. Galwch 0845 010 8020, ebostiwch i quality.tourism@wales.gsi.gov.uk, neu ymwelwch ag www.wales.gov.uk/topics/tourism/grading





## chwimffeithiau

CYNHALIODD LLANWRTYD EI DIGWYDDIAD BEICIO MYNYDD CYNTAF YN 1985. ERS HYNNY MAE'R DREF FECHAN WEDI ENNILL BUDDION ARUTHROL O'I RHAGLEN FLYNYDDOL O DDIGWYDDIADAU AR GYFER YMWELWYR

### Awgrymiadau da i gaffés, tai bwyta a mannau bwyta eraill

- Cynigiwch blateidiau sylweddol o fwyd llawn ynni
- Cynigiwch becynnau cinio i feicwyr sydd ddim am dreulio amser yn eistedd o flaen pryd o fwyd. Stociwch fyrbrydau a diodydd maethlon, ynni-uchel, iachus, gan gynnwys rhai a gynhyrchir gan frandiau bwyd arbenigol yn unswydd ar gyfer y gymuned feicio
- Byddwch yn hyblyg. Darparwch ar gyfer amserlenni beicwyr mynydd trwy gynnig brecwast cynnar a swper hwyr iddynt
- Dewch i adnabod y gymuned feicio mynydd leol. Trowch eich safle'n arhosfa hanfodol i dywyswyr beicio mynydd a charfannau reidio lleol, ymunwch â mannau llety lleol sy'n gyfeillgar â beicwyr i gynnig bargeinion pecyn
- Gwnewch bopeth i sicrhau eich cwsmeriaid y bydd croeso cynnes iddynt bob amser, hyd yn oed pan gyrhaeddant yn fwd i gyd
- Cynigiwch storfa ddiogel i feiciau, neu rywle lle gellir cloi beiciau'n rhwydd
- Darparwch wybodaeth leol am leoedd i reidio
- Cysylltwch â chlwbiau beicio lleol i roi gwybod iddynt bod eich busnes yn croesawu beicwyr.

### Awgrymiadau da i fasnachwyr beicio mynydd (siopau beiciau, arweinwyr teithiau, hurwyr beiciau):

- Darparwch wasanaeth gollwng a chasglu i adael i gwsmeriaid drefnu i gyfarpar huriedig gael ei anfon at eu llety
- Gwnewch eich hun yn ganolbwynt gwybodaeth. Denwch feicwyr at eich busnes trwy gynnig gwybodaeth leol am lwybrau a mannau i feicio
- Darparwch ar gyfer y farchnad feicio mynydd amrywiol trwy stocio rhychwant o gyfarpar at anghenion gwahanol gwsmeriaid. Cynigiwch ôl-gerbydau a beiciau i blant, yn ogystal â beiciau ar gyfer reidwyr mwy profiadol
- Codwch eich proffil trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau beicio mynydd /clwbiau beicio lleol.

## astudiaeth achos

MUDTREK, BLAEN NANT GWYN, MYNYDD LLANLLWNI, SIR GÂR

WWW.MUDTREK.COM




Mae MudTrek, sydd yn agos i Goed Brechfa, yn cynnig llety mewn chalets tebyg i rai mewn cyrchfan sgïo a theithiau mynydd beicio tywysedig 'oddi ar y piste' ar hyd llwybrau naturiol. Gweithredir y busnes gan Nikki Channon a Jason Mulvey, a ddewisodd y lleoliad yn arbennig er mwyn darparu ar gyfer y farchnad MTB.

'Y peth mawr y mae pobl yn ei amcangyfrif yn rhy isel yn aml yw faint o arian sydd gan y bobl hyn i'w wario,' medd Nikki. 'Maen nhw'n dod o Lundain lle maen nhw'n ennill digon, a 'dyw talu sawl can punt i aros dros y penwythnos yn ddim iddyn nhw. Os taw am y math yna o farchnad rych chi'n anelu, Bydd pobl yn disgwyl cael bwyd da, cawodydd sy'n gweithio a llety cyfforddus iawn.'

> 'Os yw pobl yn ein licio ni maen nhw'n rhoi gwybod amdanon ni i'w ffrindiau'

Mae cynnig y math iawn o fwyd yn chwarae rhan fawr yn apêl MudTrek i feicwyr mynydd. 'Does dim rhaid iddo fod yn ffansi nac yn ddrud o angenrhaid,' esbonia Nikki. 'Prydau bwyd llawn carbohydradau yw e, megis pasta a chyrri gyda reis. Rwy'n paratoi pecynnau cinio ynni-gyfoethog sy'n llawn pethau fydd ddim yn troi'n soeglyd. Rwy'n gwneud brecwast mawr hefyd i'r gwesteion, sydd wastad yn cael derbyniad da.'

Ac yntau'n fusnes cymharol newydd, bu raid i MudTrek droi at strategaethau amgen er mwyn cyhoeddi ei neges i gwsmeriaid dichonol. 'Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn llwyddiant aruthrol,' medd Nikki, 'a dyma ichi'r ffordd ymlaen yn bendant ni waeth a oes cyllid gyda chi ar gyfer hysbysebu neu beidio. Mae cyfran fawr o'n rhagarchebion ni'n dod trwy gyfryngau cymdeithasol a'r effaith firysol. Os yw pobl yn ein licio ni maen nhw'n rhoi gwybod amdanon ni i'w ffrindiau trwy Weplyfr neu Drydar.'

# Cyhoeddi'ch neges



Mae'r rhyngrwyd yn hynod bwysig i'ch cynulleidfa feicio mynydd.

Mae demograffeg y farchnad yn golygu y bydd y rhan fwyaf o feicwyr mynydd yn gyfarwydd iawn â'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol. Cyn dechrau unrhyw daith, maent yn debygol o wneud gwaith ymchwil drylwyr ar-lein i benderfynu ble maen nhw am reidio ac aros dros nos. Mae yna lu o bethau syml y gall busnesau twristaidd eu gwneud i sicrhau eu bod yn weladwy iawn i'w cwsmeriaid dichonol.

> Pwysleisiwch nodweddion MTB-gyfeillgar eich busnes ar eich gwefan. Rhestrwch gyfleusterau perthnasol, neu ychwanegwch dudalen yn anelu at feicwyr mynydd

> Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol megis Gweplyfr (Facebook) a Thrydar (Twitter) i ddod i gysylltiad â selogion MTB a chwsmeriaid dichonol

> 'Hoffwch' mbwales.com ar Weplyfr er mwyn cael y newyddion diweddaraf am bopeth ym myd beicio mynydd

> Cadwch gronfa ddata o'ch cwsmeriaid. Anfonwch gylchlythyr newyddion rheolaidd yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau, llwybrau a chynigion arbennig

> Treuliwch amser yn darllen fforymau beicio mynydd a gwefannau arbenigol er mwyn ymgyfarwyddo â'r hyn y mae beicwyr mynydd yn chwilio amdano

> Mae gwefannau llawer o ganolfannau llwybrau a beicio mynydd yn rhestru busnesau MTB lleol. Gwnewch yn siwr eu bod yn eich cynnwys chi – ac ad-dalwch y ffafr trwy eu rhestru ar eich gwefan chi

## Croeso Beicwyr

Trwy ymuno â'r cynllun Croeso Beicwyr sydd ag achrediad Croeso Cymru, byddwch yn dangos ar unwaith i feicwyr mynydd fod eich busnes chi'n rhywbeth arbennig. Mae ymuno â'r cynllun hwn yn dangos eich bod wedi gwneud ymdrech arbennig i gynnig y cyfleusterau y mae beicwyr yn chwilio amdanynt wrth benderfynu rhagarchebu. Yn ogystal, cewch chi arddangos logo Croeso Beicwyr yn eich safle busnes ac ar eich gwefan a'ch deunydd hysbysebu. Ac yn well fyth, cewch ymuno yn rhad ac am ddim. I gael rhagor o wybodaeth ebostiwch quality.tourism@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch 0845 010 8020.

## astudiaeth achos

BEICS BRENIN, COED-Y-BRENIN, GER DOLGELLAU
WWW.BEICSBRENIN.CO.UK



Siop logi beiciau mynydd yw Beics Brenin sydd wedi'i lleoli yng nghanolfan llwybrau Coed-y-Brenin ers 2006. Rhedir y siop gan Joe Hayward, sydd wedi sylwi ar newid graddol mewn twristiaeth MTB dros y blynyddoedd diwethaf.

'Mae tyfiant wedi bod mewn beicio mynydd mwy adlonnol,' medd Joe. 'Ochr yn ochr â'r beicwyr tra ymroddedig rydan ni'n gweld mwy o bobl yn ymddiddori mewn ffordd lai difrifol mewn reidio llwybrau, sy'n gweld beicio mynydd fel dim ond un o'u gweithgareddau awyr agored.'

O ganlyniad, mae'n hanfodol bod siop megis Beics Brenin yn darparu ar gyfer y gynulleidfa ehangaf bosibl. 'Mae llogi beiciau'n bwysig iawn,' medd Joe. 'Rydan ni'n cynnig ystod o opsiynau o gyfarpar lefel mynediad i fyny at feiciau mynydd tra arbenigol. Rydan ni'n cael bod llawer o'r ymwelwyr y byddech chi'n eu disgrifio 'falla fel potshwyr achlysurol yn llogi beic mwy drud o lawer yn hytrach na d?ad â'u cyfarpar eu hunain, a hynny oherwydd mai yng Nghoed-y-Brenin y maen nhw.'

> 'Mae llogi beiciau'n bwysig iawn'

Yn ogystal â gwerthu cyflenwadau hanfodol megis dillad dwrglos, bariau egni a thiwbiau aer sbâr, mae'r siop yn gweithredu fel canolbwynt gwybodaeth answyddogol i'r rhai sy'n ymweld â'r ganolfan. 'Mae ein haelodau staff i gyd yn feicwyr mynydd sydd wedi reidio ar hyd a lled Coed-y-Brenin, ac o ganlyniad rydan ni'n medru cynnig llwyth o wybodaeth am bethau megis y gwahanol lwybrau y medran nhw eu cyfuno er mwyn cydfynd â'r amser sydd ar gael gynnon nhw neu eu lefel gallu.'

Trwy ei gwefan y mae'r siop yn hysbysebu gan amlaf, ond mae Joe yn trefnu digwyddiadau beicio mynydd hefyd sy'n helpu i gael y neges allan. 'Mae'r achlysuron hyn yn cyhoeddi ein henw i gynulleidfa go eang,' medd Joe. 'Er mai digwyddiadau anghystadleuol ydy'r rhain, mae'r bobl sy'n reidio ynddyn nhw'n amrywio o arbenigwyr i botshwyr a dechreuwyr. Mae hynny'n helpu'n fawr i godi ein proffil ni.'



# Rhaid ichi wybod:

## gwybodaeth bellach, cysylltiadau defnyddiol

**chwimffeithiau**

COED-Y-BRENIN GER DOLGELLAU OEDD CANOLFAN FEICIO MYNYDD BWRPASOL GYNTAF CYMRU

**Beicio Mynydd yng Nghymru**
www.mbwales.com
Gwefan Croeso Cymru mewn partneriaeth â Chomisiwn Coedwigo Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am ganolfannau llwybrau a safleoedd cychwyn. I gael gwybodaeth gyffredinol am dwristiaeth feicio gweler www.cycling.visitwales.com

**Y Comisiwn Coedwigo**
www.forestry.gov.uk/mtbwales
Gwybodaeth am y llwybrau a'r canolfannau ymwelwyr a weithredir gan y Comisiwn Coedwigo.

**Cymdeithas Ryngwladol Beicio Mynydd**
www.imba.org.uk
Sefydliad di-elw sy'n rhoi gwybodaeth am adeiladu llwybrau a hawliau tramwy cyhoeddus.

**Cognation**
www.cognation.co.uk
Gwybodaeth am ddatblygiadau ym myd beicio mynydd a chyfleusterau yn Ne Cymru.

**Beicio Clwyd**
www.ridetheclwyds.co.uk
Gwybodaeth am feicio ym Mryniau Clwyd; cyn bo hir bydd gwefan newydd o'r enw Ride North Wales
www.ridenorthwales.co.uk

**Beicio Mynydd ar Fannau Brycheiniog**
www.mtbbreconbeacons.co.uk
Gwybodaeth am lwybrau ac i ymwelwyr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Beicio Mynydd yn Eryri**
www.eryri-npa.gov.uk
Gwybodaeth am lwybrau ac i ymwelwyr ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
www.ccw.gov.uk
Gwybodaeth am fynediad i gefn gwlad a hawliau tramwy cyhoeddus.

**Beicio Cymru**
www.welshcycling.co.uk
Gwybodaeth am fannau i feicio a digwyddiadau beicio.

**Graddio seren Croeso Cymru a sicrhau ansawdd**
www.industry.visitwales.co.uk

**Gwybodaeth Fusnes**
www.business.wales.gov.uk
Gwybodaeth a chyngor i fusnesau newydd a sefydlog.

## astudiaeth achos

ONEPLANET ADVENTURE CAFÉ, COED LLANDEGLA, GER WRECSAM WWW.ONEPLANETADVENTURE.COM



Mae'r Oneplanet Café yn un ymhlith nifer o gyfleusterau yng nghanolfan llwybrau Coed Llandegla yn y Gogledd. Mae'r caffé'n cynnig rhychwant o seigiau cartref, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio cynhwysion o'r ardal. Ein prif nod yw darparu'r math o fwyd y mae beicwyr mynydd yn ei chwenychu ar ddiwedd reid galed.

Yn ôl y rheolwr Ian Owen, anaml y mae hyn yn golygu'r opsiwn 'bwyd iachus', er y gall beicwyr mynydd bledio amgylchiadau sy'n lleihau eu bai efallai. 'Mae gynnon ni wobr am y Frechdan Gig Moch Orau yng ngwledydd Prydain a'r Brecwast Gorau yng Nghymru,' medd Ian. 'Dyma'r ddwy eitem sydd orau gan ein cwsmeriaid. Os ydyn nhw newydd fod allan yn llosgi 2,000 o galorïau, dyna'n bendant y math o fwyd sy'n mynd â'u bryd.'

> 'Yr hyn sy'n cyfrif ydy bwyd da, ymagwedd dda a gwasanaeth da'

Mae'n beth doeth hefyd ichi gymryd y tywydd i ystyriaeth. Dywed Ian fod y caffé'n defnyddio pum gwaith cymaint o lefrith ar ddiwrnod oer ag ar ddiwrnod cynnes, gan fod y cwsmeriaid yn dewis lattes a siocled poeth yn hytrach na diodydd meddal a the. Mae sicrhau bod y fwydlen yn cydfynd â'r hinsawdd yn gwneud gwahaniaeth y byd.

Y peth pwysicaf oll yw gwneud argraff gyntaf dda. I raddau helaeth mae'r gymuned feicio mynydd yn dilyn y cyngor a glywir ar lafar gwlad. Gall rhoi profiad da i'r ymwelydd dalu ar ei chanfed.

'Rhoi gwasanaeth safonol sy'n cyfrif,' medd Ian. 'Dan ni'n ymlafnio cynnig profiad da i'r bobl sy'n d?ad yma fel y medran nhw fynd adre a dweud wrth eu ffrindiau amdano. Yr hyn sy'n cyfrif ydy bwyd da, ymagwedd dda a gwasanaeth da.'

# Canolfannau beicio mynydd

### Parc Coedwig Afan

www.afanforestpark.co.uk

Mwy na 80 milltir o lwybrau, sy'n amrywio o ffyrdd coedwig â rhediadau graddol i draciau sengl gradd goch a du. Dyma lle cewch chi rai o'r disgynfeydd mwyaf heriol yng ngwledydd Prydain yn ogystal â llwybr y Llinyn Awyr sy'n 29 milltir o hyd ac yn un o'r llwybrau pwrpasol hwyaf yng Nghymru. Mae canolfannau ymwelwyr ar ddau ben y llwybr ger Y Cymer a Glyncorrwg.

### Antur Stiniog, Blaenau Ffestiniog

www.anturstiniog.com

Bydd canolfan ddisgyn newydd Blaenau Ffestiniog yn agor yn y gwanwyn/ haf 2012. Bydd ganddi ddwy ddisgynfa radd ddu a dau lwybr reidio'n rhydd. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys gwasanaeth esgyn mewn minibws, safle neidio a chanolfan ymwelwyr â chaffé a chawodydd.

### Coed Llandegla, ger Wrecsam

www.coedllandegla.com

Mae amrywiaeth o lwybrau wedi'u graddio rhwng gwyrdd a du'n igam-ogamu ar draws y 650 o hectarau yng Nghoed Llandegla. Gall ymwelwyr logi beiciau ar y safle, ail-lenwi eu boliau yn yr Oneplanet Adventure Café arobryn, prynu unrhyw gyfarpar sydd ei angen yn y siop feiciau, neu gael cymorth i atgyweirio beiciau. Cewch chi'r pecyn cyflawn yma.

## chwimffaithau

PRIODOL IAWN YW ENW Y WÂL YM MHARC COEDWIG AFAN – DYMA UN O'R DISGYNFEYDD GORAU YNG NGWLEDYDD PRYDAIN

### Parc Coedwig Coed-y-Brenin, ger Dolgellau

www.forestry.gov.uk/coedybrenin

Mae gan ganolfan lwybrau bwrpasol gyntaf Cymru, Coed-y-Brenin, enw da rhyngwladol. Mae llwybr gradd las y MinorTaur, a fydd yn cael ei gwblhau yn 2013, yn gadael i reidwyr ag anableddau fwynhau beicio mynydd. Canolfan ymwelwyr wych, wedi'i dylunio'n ardderchog.

### Coed Trallwm, i'r gogledd o Lanwrtyd

www.coedtrallwm.co.uk

Mae llwybrau trac sengl pwrpasol wedi'u graddio rhwng glas a du yn torri ar draws y wlad brin ei phoblogaeth o amgylch Coed Trallwm. Mae gan y ganolfan ymwelwyr caffé, man golchi beiciau a chabanau coedwig hunanarlwyol. Mae'r ddeg milltir o lwybrau coedwig yng Nghoed Trallwm yn fan cychwyn da i ddechrau archwilio 'Cymru Wyllt' llyndiroedd Cwm Elan, yr ucheldiroedd gwag rhwng Rhaeadr Gwy, Cwmystwyth a Thregaron.

### Cwmcarn, De Cymru

www.cwmcarnforest.co.uk
www.forestry.gov.uk

Dim ond llwybrau gradd coch a du sydd yma; Cwmcarn yw'r lle felly i'r beiciwr mynydd mwyaf ymroddedig. Mae gwasanaeth esgyn ar gael hefyd trwy gydol y flwyddyn (www.cwmdown.co.uk).

### Nant-yr-Arian, ger Ponterwyd, Y Canolbarth

www.forestry.gov.uk/bwlchnantyrarian

Mae'r beicio ar hyd traciau mynydd trwy anialwch uchel sydd ar gael yn Nant-yr-Arian yn boblogaidd ymhlith y reidwyr mwyaf gwydn sy'n hoff o brofiad dyrys. Mae Llwybr gradd ddu Syfrydin yn cynnig reid heriol o 22 filltir trwy dirwedd sy'n mynd â'ch anadl.










# Safleoedd cychwyn beicio mynydd

### Betws-y-Coed

www.betws-y-coed.co.uk

Saif prifddinas anturiaethau awyr agored Cymru yng nghalon Eryri. Yn ogystal â mwy na 60 milltir o ffyrdd tân, cewch fentro ar hyd dau lwybr gradd goch pwrpasol, Llwybr Marin a Llwybr Penmachno.

### Brechfa, i'r dwyrain o Gaerfyrddin

www.forestry.gov.uk
www.visitbrechfaforest.com

Yng Nghoed Brechfa ceir beicio mynydd fydd at ddant pob un. Gall dechreuwyr roi cynnig ar Lwybr mwyn Derwen tra bod y reidwyr sy'n gaeth i adrenalin yn profi eu dewrder ar y disgynfeydd a'r neidiau ar hyd Llwybr gradd ddu'r Gigfran.

### Bannau Brycheiniog

www.mtbbreconbeacons.co.uk

Rhwng y dwsinau o lwybrau mynydd agored, a'r traciau ar lannau llynnoedd a thrwy coedwigoedd, mae Bannau Brycheiniog yn cynnig ystod anferth o brofiadau beicio oddi ar y ffordd– o reidio llwybrau megis Y Bwlch a Ffordd Rufeinig Sarn Helen sy'n torri ar draws calon y Bannau i lwybrau glaswelltog mwyn sy'n ymlwybro dros gomintiroedd hardd.

### Bryniau Clwyd

www.ridetheclwyds.co.uk

Caiff reidwyr archwilio Bryniau Clwyd, sy'n Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol, ar hyd amrywiaeth o lwybrau gerwin a ffyrdd tawel. Maent yn cynnwys Llwybr byr Coed Nercws sy'n ddelfrydol ar gyfer teuluoedd a llwybr gradd ddu 'Almost the Delyn', sydd bron 50 milltir o hyd.



### Cwm Rhaeadr, ger Cilycwm, i'r gogledd o Lanymddyfri

www.forestry.gov.uk

Mae llwybr trawiadol na ŵyr ond ychydig o bobl am ei fodolaeth yn ymdroelli i fyny trwy'r goedwig yng Nghwm Rhaeadr at grib garegog â golygfeydd syfrdanol cyn ymdaflu i lawr ar hyd trac sengl tra heriol.

### Hiraethog, Gogledd Cymru

www.ridehiraethog.com

Y rhostiroedd a'r cronfeydd dŵr ar Fynydd Hiraethog i'r gorllewin o Ddinbych yw'r gefnlen lonydd i chwe llwybr beicio. Mae'r Llwybr gradd werdd O Amgylch y Llyn yn mynd â reidwyr o gwmpas Cronfa Llyn Brenig tra bod y Llwybr gradd goch Garw ar y Graig yn golygu dringfa lethol o 1,500 o fetrau.

### Machynlleth

www.dyfimountainbiking.org.uk

Mae llwybrau naturiol Mach 1–3 sydd wedi'u graddio rhwng glas a du'n ymdroelli trwy'r wlad fryniog sydd o gwmpas Machynlleth. Ar drac sengl pwrpasol Cli-machx cewch wynebu neidiau caregog a'r ddisgynfa hwyaf yng Nghymru.

### Sir Faesyfed

www.roughrides.co.uk

Mae'r wlad ar hyd y ffin yn Sir Faesyfed yn cynnig dwsinau o lwybrau amrywiol oddi ar y ffordd, gan gynnwys milltiroedd o draciau sengl unig. Yn yr ardal hon y cynhelir cystadlaethau o bwys megis Reid Wyllt Maesyfed a Reid Arwrol yr Hydref.



# Graddio llwybrau

Visit Wales Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru Welsh Government

COGNATION mtb trails South Wales llwybrau beicio De Cymru

beicio gogledd cymru ride north wales

Eryri | Snowdonia un antur fawr | one big adventure

Yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Cymdeithas Pysgota Prysor, Antur Stiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

Working in partnership with Gwynedd Council, Tourism Partnership Mid Wales, Forestry Commission Wales, Urdd Gobaith Cymru, Prysor Angling Association, Antur Stiniog, Snowdonia National Park Authority and the Nuclear Decommissioning Authority.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

ERDF Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

| Gradd | Addas ar gyfer | Mathau o lwybr ac arwyneb | Serthrwydd llethrau a nodweddion technegol llwybr (TTFs) | Lefel ffitrwydd a awgrymir |
|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd Hawdd ● | Dechreuwyr/egin feicwyr. Mae angen sgiliau beicio sylfaenol. Y rhan fwyaf o feiciau a chroesiadau. Mae rhai llwybrau gwyrdd yn addas ar gyfer ôl-gerbyd. | Cymharol wastad a llydan. Gall arwyneb y llwybr fod yn llac, yn anwastad neu'n fwdlyd weithiau. Gall gynnwys hydoedd byr o drac sengl. | Nid yw'r rhan fwyaf o'r esgyniadau a disgynfeydd yn serth. Dim nodweddion heriol. | Addas ar gyfer y rhan fwyaf o bobl mewn iechyd da. |
| Glas Cymedrol ■ | Beicwyr cymharol fedrus /beicwyr mynydd â sgiliau beicio oddi-ar-ffordd sylfaenol. Beiciau mynydd neu groesiadau. | Tebyg i 'Gwyrdd', ond yn cynnwys traciau sengl wedi'u hadeiladu'n unswydd. Gall arwyneb y llwybr gynnwys rhwystrau bach megis gwreiddiau a cherrig. | Mae'r rhan fwyaf o'r llethrau'n gymedrol, ond gallant gynnwys hydoedd byr sy'n serth. Yn cynnwys nodweddion technegol TTFs bach. | Gall lefel ffitrwydd dda fod yn gymorth. |
| Coch Anodd ▲ | Beicwyr mynydd medrus â sgiliau beicio oddi-ar-ffordd da. Addas ar gyfer beiciau mynydd oddi-ar-ffordd o safon uwch. | Yn fwy serth a garw, trac sengl yn bennaf gyda darnau technegol. Gellir disgwyl mathau amrywiol o arwyneb. | Ystod eang o esgyniadau a ddisgynfeydd go heriol. Gellir disgwyl bordlwybrau, canteli, creigiau mawr, grisiau cymedrol, disgynfeydd sydyn, cambrau a rhydau. | Angen lefel ffitrwydd a stamina uwch. |
| Du Dyrys ◆ | Defnyddwyr beiciau mynydd arbenigol, sy'n gyfarwydd â llwybrau sy'n her gorfforol. Addas ar gyfer beiciau mynydd oddi-ar-ffordd o safon uwch. | Tebyg i 'Coch', ond gellir disgwyl mwy o her ac anawsterau parhaus. Gall gynnwys unrhyw lwybr defnyddiadwy a darnau sy'n croesi bryniau agored. | TTFs mawr anosgoadwy. Bydd hydoedd o'r llwybr yn amrywiol ac yn heriol. Gallant gynnwys hydoedd goriwaered. | Addas ar gyfer pobl dra actif sy'n gyfarwydd â gweithgarwch egnïol estynedig. |

Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau manwl gywirdeb yn y cyhoeddiad hwn, ni all y cyhoeddwyr dderbyn unrhyw atebolrwydd dros gamgymeriadau, anghywirdebau na hepgoriadau, nac unrhyw broblem sy'n deillio mewn unrhyw ffordd o gyhoeddiad y wybodaeth.

Cyhoeddwyd gan bartneriaeth rhwng Croeso Cymru, Comisiwn Coedwigo Cymru, Llwybrau mtb De Cymru Cognation, Beicio Gogledd Cymru ac Eryri un antur fawr.

Ysgrifennwyd gan Writerog Limited,
Roger Thomas Freelance Services, Crucywel NP8 1PY

Argraffwyd gan: ridlerwebster.co.uk